

Theatr Genedlaethol Cymru

Estron

Uned i Ddysgwyr – Lefel Uwch

Nodiadau i'r Tiwtor

Nod y wers:

- Cyflwyno a thrafod drama *Estron*;
- Trafod rhai o themâu'r ddrama – perthnasau a chyfathrebu, arferion bywyd, bodau estron;
- Dysgu geirfa a phriod-ddulliau newydd

Bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn mynd â'u cynhyrchiad o'r ddrama *Estron* ar daith rhwng 19 Ebrill a 19 Mai. Mae'r ddrama yn ymdrin â nifer o themâu ac emosiynau oesol gan gynnwys galar, unigrwydd, perthnasau pobl â'i gilydd a'r dewis rhwng mentro er mwyn cael profiadau newydd neu gadw at dir cyfarwydd, saff. Ond mae'r themâu hyn yn cael eu cyflwyno i ni mewn ffordd newydd, arbrol ac mae'r cyfan wedi ei osod yn ein byd technolegol, modern ni. Bwriad y deunydd yma yw rhoi cyflwyniad i'r ddrama i ddysgwyr sydd ar lefel Uwch a'u hannog i fynd i'w gweld yn y theatr!

Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn yr uned hon dros fwy nag un sesiwn.

1. Cyflwyniad a Siarad

Ewch dros yr eirfa cyn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddarllen y cyflwyniad i'r ddrama. Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod cystadlu/derbyn beirniadaeth a defnydd o dechnoleg newydd i gyfathrebu. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

2. Ymarfer Geirfa

Gofynnwch i barau wneud yr ymarfer llenwi bylchau (aml-ddewis). Ewch dros yr atebion, gan drafod yr ystyron yn ôl yr angen.

3. Darn o sgript *Y Tud*

Mae'r sgript yn cynnwys nifer o ymadroddion sy'n perthyn i dafodiaith ddeheuol. Rhoddir fersiynau gogleddol o nifer o'r ymadroddion er mwyn hwyluso dealltwriaeth o'r sgript i ddysgwyr o'r Gogledd ac i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o bob rhan o'r wlad o ffurfiau tafodieithol gwahanol. Gofynnwch i barau ddarllen trwy'r darn ac i baru'r

ymadroddion gogleddol a restrir gyda'r ymadroddion deheuol sydd yn y sgript. Wrth fynd dros yr atebion, gallwch drafod ffurfiau amrywiol ar rai o'r ymadroddion, gan gynnwys ffurfiau sy'n perthyn i dafodieithoedd lleol a ffurfiau mwy safonol.

Os oes rhai sy'n hoff o berfformio yn y dosbarth, gellir gofyn iddynt ymarfer y darn a'i berfformio i'r dosbarth.

4. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau siarad sydd ar y dudalen olaf a gofynnwch i grwpiau drafod cyn dod â'r dosbarth at ei gilydd i drafod eu hymateb.

5. Pwy yw Hefin Robinson?

Gofynnwch i barau ddarllen trwy'r portread o Hefin Robinson sydd ar y daflen. Yna gofynnwch iddyn nhw baratoi cwestiynau i'w holi mewn cyfweiliad (rhaid bod yr atebion yn y darn). Newidiwch y parau a gofyn i un partner gymryd rôl y cyfwelydd ac un i gymryd rôl Hefin i ateb y cwestiynau.

6. Mynd i weld y ddrama

Sicrhewch fod manylion taith *Estron* gyda chi ac os oes modd, trefnwch fynd i weld y ddrama gyda'r dysgwyr.

TAITH ESTRON

Theatr y Glowyr, Rhydaman	19 a 20 Ebrill 2018
Canolfan Garth Olwg, Pentre'r Eglwys	24 Ebrill 2018 (sgwrs i ddysgwyr cyn sioe)
Neuadd Dwyfor, Pwllheli	26 Ebrill 2018
Y Stiwt, Rhosllannerchrugog	1 Mai 2018
Theatr Bro Alaw, Bodedern	3 Mai 2018
Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron	5 Mai 2018
Pontio, Bangor	8 Mai 2018 (sgwrs i ddysgwyr cyn sioe)
Canolfan Morlan, Aberystwyth	9 Mai 2018
Neuadd Gymunedol Maenclochog	11 Mai 2018
Ffwrnes, Llanelli	12 Mai 2018
Chapter, Caerdydd	14, 15 a 16 Mai 2018 (Sgwrs i ddysgwyr cyn sioe, 14 Mai)
Canolfan y Celfyddydau Taliesin, Abertawe	17 Mai 2018
Galeri, Caernarfon	19 Mai 2018